

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Croeso i'r Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Cadarnhawyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 yn 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen' ym mis Mawrth 2017.

Mae'r arddangosfa hon yn dilyn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017 a Mehefin 2018, ac fe'i cynhelir i ddangos yr opsiynau arfaethedig ar gyfer gwella Cyffyrdd 15 a 16 yr A55.

Cafodd yr opsiynau dewisol eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ebrill 5 2019. Mae'r arddangosfa yn egluro'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau dewisol a gyflwynwyd, sut y gwrandawyd ar eich barn, a beth fydd yn digwydd nesaf.

Bydd y tîm prosiect sy'n bresennol yn fodlon eich cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau a all fod gennych ynglŷn â'r wybodaeth. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen adborth i leisio eich barn.

Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mike Gilbert, ar 07840 330 238 neu drwy e-bost A55J15J16@ramboll.com.

Diben y prosiect

Cyffyrdd 15 ac 16 ar yr A55 yw'r unig ddwy gylchfan ar Rwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd E22 (TEN-T). Mae hyn yn achosi problemau i'r traffig sy'n defnyddio'r A55. Diben y prosiect hwn yw cael gwared ar y ddwy gylchfan ar gyffyrdd 15 ac 16 yr A55, a'u hamnewid gyda chyffyrdd wedi'u huwchraddio. Bydd y cyffyrdd newydd yn golygu na fydd angen i draffig arafu wrth y cylchfannau, gan leihau oedi. Drwy gael gwared â'r cylchfannau, bydd y cyffyrdd yn fwy diogel i draffig sy'n teithio ar hyd yr A55, ac i bobl sy'n dymuno ymuno neu ymadael â'r A55 yn y lleoliadau hyn. Bydd y prosiect hefyd yn ymdrin â nifer o nodweddion is-safonol ar y gefnffordd gerllaw'r cyffyrdd.

<https://llyw.cymru/a55-cyffordd-15-ac-16-trosolwg>

A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME

Welcome to the Public Information Exhibition

The Welsh Government commitment to improve the A55 Junctions 15 & 16 was confirmed by 'Moving North Wales Forward' in March 2017.

This exhibition follows on from the Public Information Exhibitions that were held in December 2017 and June 2018, and is being held to showcase the proposed options for the improvements at A55 Junctions 15 and 16.

The preferred options were announced by the Welsh Government on April 5 2019. This exhibition explains the reasons for choosing the preferred options presented, how your views have been listened to and what happens next.

The project team in attendance will be happy to assist you with any queries that you may have about the information. Please use the feedback form to give your views.

You can also contact the Public Liaison Officer, Mike Gilbert, on 07840 330 238 or by email A55J15J16@ramboll.com.

Purpose of the project

The A55 junctions 15 and 16 are the only two roundabouts on the Euroroute E22 Trans-European Transport Network (TEN-T). This causes problems to the traffic using the A55 travelling along the route. The purpose of the project is to remove the two roundabouts at A55 junctions 15 and 16, and replace them with upgraded junctions. The new junctions will mean that traffic will not need to slow down at the roundabouts, reducing delays. The removal of the roundabouts will also make the junctions safer both to traffic travelling along the A55, and for people wishing to enter and leave the A55 at these locations. The project will also address a number of substandard features of the trunk road in the vicinity of the junctions.

<https://gov.wales/a55-junctions-15-and-16-overview>



ORDEROY WSP



CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Datblygu a gwerthuso'r prosiect


Mae astudiaethau trafnidiaeth a gynhaliwyd ar hyd yr A55 wedi amlygu bod y cylchfannau a leolir yng Nghyffyrdd 15 ac 16 yn cael effaith negyddol ar y coridor rhwydwaith hwn

Mae cynllun gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 wedi'i asesu gan ddefnyddio gweithdrefn Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru ('WelTAG') 2017.

Mae proses asesu WelTAG yn datblygu, arfarnu a gwerthuso unrhyw ymyriad trafnidiaeth arfaethedig. Datblygwyd WelTAG 2017 i adlewyrchu Deddf Teithio Llesol 2012 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae WelTAG 2017 yn sicrhau bod yr holl opsiynau arfaethedig ar gyfer unrhyw gynllun a gynigir yn cael eu mesur yn erbyn sut maent yn effeithio ar gymunedau lleol presennol a rhanddeiliaid allweddol o safbwynt effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried sut y mae pob opsiwn yn cyfrannu at y nodau llesiant ac amcanion y prosiect.

Defnyddiodd y prosiect hwn waith cynharach o Gam 1 WelTAG a gynhaliwyd rhwng 2008 a 2010 a oedd yn cynnwys ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid. Datblygwyd amcanion y prosiect ac ystyriwyd rhestr hir o opsiynau cyffyrdd a gafodd eu crynhoi i restr fer ar ôl asesu pob opsiwn.

Cyflwynwyd pum opsiwn ar gyfer Cyffordd 15 a phedwar opsiwn ar gyfer Cyffordd 16 ynghyd ag amcanion y prosiect mewn Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr 2017.



O'r sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd amcanion y prosiect a'r opsiynau arfaethedig, a datblygwyd rhagor o opsiynau amgen. Aseswyd y rhain yn ystod rhan gynnar Cam 2 WelTAG ac fe'u cyflwynwyd yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus gyda chyfres ddiwygiedig o amcanion prosiect.

- OBJ1 Gwella mynediad i farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad i gyfleoedd gwaith.
- OBJ2 Gwella diogelwch ffordd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A.
- OBJ3 Gwella amseroedd siwrne a dibynadwyedd amseroedd siwrne ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A.
- OBJ4 Gwella gwytnwch ar yr A55 i draffig strategol a lleol.
- OBJ5 Gwella amseroedd siwrne, dibynadwyedd amseroedd siwrne a diogelwch ar gyfer mynediad ar yr A55.
- OBJ6 Lleihau datgysylltiad ag ardaloedd arfordirol ar gyfer Defnyddwyr Difodur a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr.
- OBJ7 Cymryd camau rhesymol i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau.
- OBJ8 Cyfleoedd i ddarparu trafnidiaeth integredig yn cynyddu.
- TECH OBJ9 Gwella cydymffurfiaeth â'r safonau dylunio (i wella diogelwch).
- TECH OBJ10 Gostwng yr angen i leihau cyfyngiadau cyflymder ar hyd yr A55 (i leihau oedi).
- TECH OBJ11 Lleihau aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu (i drigolion a busnesau lleol, ac ar hyd yr A55 ei hun).

OBJ = Amcan
TECH OBJ = Amcan Technegol

A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME

Development and appraisal of the project


Transport studies undertaken along the length of the A55 have highlighted that the roundabouts located at Junctions 15 and 16 have a negative impact on this network corridor.

The A55 Junction 15 & 16 Improvements scheme has been assessed using the Welsh Transport Appraisal Guidance (WelTAG) 2017 procedure.

The WelTAG assessment process develops, appraises and evaluates any proposed transport intervention. WelTAG 2017 was developed to reflect the Active Travel Act 2012 and Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015. WelTAG 2017 ensures that for any proposed scheme, all the proposed options are measured against how they impact on existing local communities and key stakeholders from the point of view of environmental, social, economic and cultural effects. The assessment also considers how each option contributes to the wellbeing goals and project objectives.

This project utilised earlier work from WelTAG Stage 1 undertaken between 2008 and 2010 which included early stakeholder engagement. Project objectives were developed and a long list of junction options were considered which were narrowed down to a shortlist following the assessment of each option.

Five options for Junction 15 and four options for Junction 16 were presented together with the project objectives at Public Information Exhibitions held during December 2017.



From the comments received, both the project objectives and the proposed options were reviewed, and further alternative options were developed. These were assessed during the early part of WelTAG Stage 2 and presented at the Public Consultation with a revised set of project objectives.

- OBJ1 Improve access to regional, national and international markets and improve access to employment opportunities.
- OBJ2 Improve road safety on the A55 from Junction 14 to Junction 16A.
- OBJ Improve journey times and journey time reliability on the A55 from Junction 14 to Junction 16A.
- OBJ4 Improve resilience on the A55 for strategic and local traffic.
- OBJ5 Improve journey times, journey time reliability and safety for access onto the A55.
- OBJ6 Reduce severance with coastal areas for the Non-Motorised Users and enhance provision made for walkers and cyclists..
- OBJ7 To take reasonable steps to build healthier communities and better environments.
- OBJ8 Opportunities to provide integrated transport are increased.
- TECH OBJ9 Minimise technical departures from standard (to improve safety).
- TECH OBJ10 Minimise the need to reduce speed limits (to reduce delays).
- TECH OBJ11 Minimise disruption during construction (to local residents and business, as well as along the A55 itself).

OBJ = Objective
TECH OBJ = Technical Objective

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Ymgynghorwyd ar yr Opsiynau ar gyfer Cyffyrdd 15 ac 16 yn ystod cyfnod o ddeuddeng wythnos rhwng 4 Mehefin 2018 a 28 Awst 2018. Arddangoswyd gwybodaeth gyffredinol am y prosiect, llyfryn ymgynghori a holiadur ar wefan LIC am holl gyfnod yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd cyfarfodydd a chyflwyniadau pellach ar ffurf delweddau 3D yn ystod mis Medi 2018, gan roi rhagor o fanylion am nifer o opsiynau o gyffyrdd i gynnig gwell dealltwriaeth o effeithiau tebygol yr opsiynau arfaethedig.

Arweiniodd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus at lefel uchel o ddiddordeb wrth i 738 o bobl ddod i'r arddangosfeydd. O'r bobl a ddaeth i'r arddangosfeydd, dychwelodd tua 45% ohonynt holiaduron. Derbyniwyd ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill hefyd. Roedd y mwyafrif o ymatebion i'r holiadur gan drigolion yng nghyffiniau Cyffyrdd 15 ac 16.

Mae'r dadansoddiad o'r holiaduron a'r ymatebion yn dangos:

- Bod cefnogaeth i welliannau ar hyd Cyffyrdd yr A55 rhwng Cyffyrdd 14 ac 16A a gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16.
- Nid oes unrhyw gonsensws eglur ynghylch yr opsiynau a ffeirir h.y. ceir rhywfaint o wahaniaeth barn o ymatebion y cyhoedd a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol o ran opsiynau a ffeirir.

Er mwyn mynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaed rhagor o waith a ddisgrifir isod:

- Cynhyrchwyd modelau cyfrifiadurol 3D i ddelweddau effeithiau posibl y gwelliannau arfaethedig i'r cyffyrdd.
- Ar gyfer Cyffordd 15, gwnaed gwaith pellach i asesu dichonolrwydd cynyddu diogelwch tra yn lleihau'r angen i ddymchwel eiddo preswyl.
- Gwnaed rhagor o waith ar gyfer Cyffordd 16 i asesu dichonoldeb lliniaru llif traffig cynyddol trwy Ddwygyfylchi ac ar hyd Ffordd Ysguborwen. Ystyriodd y gwaith ddarparu mesurau gostegu traffig ynghyd ag ymestyn y ffordd gyswllt i Gyffordd 16.
- Hefyd, ar gyfer Cyffordd 16, mae cynllun cyffordd diwygiedig yng Nghyffordd 16A wedi cael gwared ar yr angen i adeiladu pont fynediad newydd ar draws Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru Network Rail.

Ers diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, mae'r modelu traffig, yr asesiad WeITAG a'r economeg wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r deilliannau o'r gwaith a ddisgrifir uchod.

Public Consultation summary of responses

We consulted on the Options for Junctions 15 and 16 in a twelve-week period from the 4 June 2018 to 28 August 2018. General project information, a consultation brochure and a questionnaire were displayed on the WG website for the duration of the consultation. Further meetings and presentations in the form of 3D visualisations were held during September 2018, giving more detail on a number of junction options to provide a better understanding of the likely impacts of the proposed options.

The Public Consultation generated a high level of interest with 738 people attending the exhibitions. Of the people who attended the exhibitions, approximately 45% returned questionnaires. Responses were also received from members of the public and other key stakeholders. The majority of the questionnaire responses were received from residents in the vicinity of Junctions 15 and Junction 16.

The analysis of the questionnaires and responses shows that:

- There is support for improvements along the A55 Junctions between Junctions 14 and 16A in particular improvements to Junctions 15 and 16.
- There is no clear consensus regarding the preferred options i.e. there are some differences of opinion from the public responses and key stakeholders organisations in terms of preferred options.


To address issues raised during the consultation, further work described below was undertaken:

- 3D computer generated models were produced to visualise the potential impacts of the proposed junction improvements.
- For Junction 15, further work was undertaken to assess the feasibility of increasing safety whilst minimising the demolition of residential properties.
- For Junction 16, further work was undertaken to assess the feasibility of mitigating increased traffic flow through Ddwygyfylchi and along Ysguborwen Road. The work considered providing traffic calming measures along with extending the link road to Junction 16.
- In addition, for Junction 16, a revised junction arrangement at Junction 16A has removed the need to construct a new access bridge across the Network Rail North Wales Coast Line.

Since the end of the Public Consultation, the traffic modelling, WeITAG assessment and economics have been updated to reflect the output from the work described above.

CYFYNGIADAU AMGYLCHEDDOL AR GYFER CYFFYRDD 15 AC 16

ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS FOR JUNCTIONS 15 & 16



Cadwraeth a bywyd gwyllt / Conservation and wildlife	Tirwedd a threftadaeth / Landscape and heritage	Cymunedau a defnydd o dir / Communities and land use
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Site of Special Scientific Interest *¹ - Ardal Cadwraeth Arbennig Special Area of Conservation *¹ - Ardal Gwarchodaeth Arbennig Special Protection Area *¹ - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol National Nature Reserve *¹ - Gwarchodfa Natur Leol Local Nature Reserve *¹ - Coetir Hanesyddol Ancient Woodland *¹	- Ffin Parc Cenedlaethol Eryri Snowdonia National Park Boundary *¹ - Parc a Gardd Hanesyddol Historic Park and Garden *² - Tirwedd Hanesyddol Historic Landscape *² - Heneb Cofrestredig Scheduled Monument *² - Ardal Cadwraeth Conservation Area *² - Adeilad Rhestredig Listed Building *²	- Llwybr troed strategol Strategic footpath *³ - Llwybr Beicio Cenedlaethol National Cycle Route *⁴ Atgynychwyd y gwybodaeth gyda chaniatod: Source data reproduced with permission of: *¹ Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales *² Cadw *³ Long Distance Walkers Association *⁴ Sustrans

Nodir manylion ynghylch y cyfyngiadau amgylcheddol allweddol sy'n dylanwadu ar y datrysiadau ar gyfer Cyffyrdd 15 ac 16 ac fe'u dengys ar y cynllun cyfyngiadau amgylcheddol.

Y gymuned a defnydd tir

- Llwybrau strategol, e.e. Llwybr Arfordir Cymru a Rhif 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW).
- Cyfleusterau gwasanaethau cymunedol.
- Effeithiau traffig ar gymunedau lleol.
- Hygyrchedd i'r rhwydwaith ffyrdd.

Y Dirwedd, y Drefwedd a Threftadaeth

- Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae Ardaloedd Cadwraeth yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd eraill ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan.
- Mae yna Heneb Gofrestredig (Cylchoedd cytiau ger Wern Newydd i'r de o'r A55).
- 12 Adeilad Rhestredig o fewn 500 metr i'r cyffyrdd.
- Parciau a Gerddi Cofrestredig Wern Isaf a Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan.
- Tirwedd Hanesyddol Rhestredig (RHL) Gogledd Arllechwedd, yn ymdrin â'r ddwy gyffordd; a thri RHL arall.
- Mae Cynllun Datblygu Unedol Sir Conwy yn dynodi Ardal Gwerth y Dirwedd a Pharth Arfordirol.

Cadwraeth a Bywyd Gwyllt

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai a Bae Conwy i'r gogledd.
- ACA Coedydd Aber, SoDdGA a Gwarchodfa Natur Cenedlaethol (NNR), i'r de.
- ACA Eryri a SoDdGA Eryri tua'r de.
- Ardal Gwarchod Arbennig (SPA) Bae Lerpwl tua'r gogledd.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Traeth Lafan a Gwarchodfa Natur Leol (LNR) tua'r gogledd.
- SoDdGA Bwlch Sychnant i'r de o Gyffordd 16.
- SoDdGA Cadnant.
- SoDdGA Coed Benarth.
- SoDdGA Aber Afon Conwy, 6.22km i'r dwyrain.
- SoDdGA Chwareli a Glaswelltir Deganwy tua'r dwyrain.

The key environmental constraints identified as influencing the solutions for Junctions 15 & 16 are detailed below and shown on the environmental constraints plan.

Community and land use

- Strategic footpaths e.g. the Wales Coastal Path and Number 5 National Cycle Network and areas designated as the Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW) Access Land.
- Community services facilities.
- The effects of traffic on local communities.
- Accessibility to the road network.

Landscape, townscape and Heritage

- Snowdonia National Park.
- There are Conservation Areas in the town centres and in other areas in Penmaenmawr and Llanfairfechan.
- There is a Scheduled Ancient Monument (Hut circles near Wern Newydd south of the A55).
- 12 Listed Buildings within 500 metres of the junctions.
- Wern Isaf and Bryn-y-Neuadd Registered Parks and Gardens in Llanfairfechan.
- North Arllechwedd Registered Historic Landscape (RHL), covering both junctions; and three other RHL.
- Conwy County Unitary Development Plan designates a Landscape Value Area and a Coastal Zone.

Conservation and Wildlife

- Menai Strait and Conwy Bay Special Area of Conservation (SAC) to the north.
- Coedydd Aber SAC, SSSI and National Nature Reserve (NNR), to the south.
- Snowdonia SAC and Eryri SSSI to the south.
- Liverpool Bay Special Protection Area (SPA) to the north.
- Traeth Lafan Site of Special Scientific Interest (SSSI) and Local Nature Reserve (LNR) to the north.
- Sychnant Pass SSSI to the south of J16.
- Cadnant SSSI.
- Benarth Wood SSSI.
- Aber Afon Conwy SSSI, 6.22km the east.
- Deganwy Quarries and Grassland SSSI to the east.

CYFFORDD 15 YR A55 LLANFAIRFECHAN

A55 JUNCTION 15 - LLANFAIRFECHAN



1. Stribedi rymblan i'w tynnu. / Rumble strips to be removed.
2. Mynediad ar hyd Shore Road East i'w gadw Mae gwelliannau ffordd a ragwelir yn cynnwys plannu coed, parcio i drigolion a chroesfan i gerddwyr/beiciau. / Access via Shore Road East retained. Anticipated street enhancements include tree planting, residents parking and pedestrian/cycle crossing.
3. Ffyrdd ymuno ac ymadael ar godiad (ar uchder o tua 7m uwch lefel bresennol yr A55). / Elevated slip roads (at an approximate height of 7m above the existing A55 level).
4. Pont droed bresennol i'w tynnu. Mae'r asesiad o'r llwybrau amgen i groesi'r A55 yn parhau. / Existing footbridge to be removed. Assessment of alternative A55 crossing routes ongoing.
5. Mynediad bws presennol yn cael ei gau. Mae'r ymgynghoriad ynghylch hyfywedd darpariaeth amgen yn parhau. / Existing bus access closed off. Consultation regarding viability of alternative provision ongoing.
6. Llwybr yn cael ei rannu rhwng beicwyr/cerddwyr (Llwybr 5 RBC). / Shared cycle/pedestrian path (NCN Route 5).
7. Safleoedd bysiau presennol i'w hail-leoli (lleoliadu i'w cadarnhau). / Existing bus stops to be repositioned (locations to be confirmed).
8. Bydd y cyfan neu ran o'r rhes 'Sunnybank' presennol yn cael ei ddymchwel. Ardal wedi'i thirlunio i ddarparu sgrinio a storfa gwanhad (lleoliad, maint a math i'w cadarnhau). / All or part of the existing 'Sunnybank' terrace to be demolished. Landscaped area to provide screening and attenuation storage (location, size and type to be confirmed).
9. Ffordd Penmaenmawr wedi'i lleoli mewn tyrchriad oddeutu 3m islaw'r lefel daear presennol, Ffordd Penmaenmawr wedi'i lleoli mewn tyrchriad oddeutu 3m islaw lefel bresennol y ddaear, gyda phlannu coed a llwyni newydd ar y llethr. / Penmaenmawr Road located in a cutting approximately 3m below the current ground level, with replacement tree and shrub planting on the bank.
10. Plannu coed a llwyni er mwyn darparu sgrinio. / Tree and shrub planting, to provide screening.

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Cyffyrdd 15 (Llanfairfechan) Opswn a ffefrir

Cyfyngiadau Dylunio


Yng Nghyffordd 15, mae'r prif gyfyngiadau yn ymwneud â'r lle tynn ar hyd coridor yr A55 rhwng yr arfordir, rheilffordd arfordir y Gogledd, coridor yr A55 a'r eiddo presennol. O ganlyniad, mae aliniad y briffordd wedi'i gyfyngu gan yr isadeiledd presennol, waliau cynnal a'r angen i gadw isafswm uchder ar hyd Shore Road East.

Roedd y prif faterion a godwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer Cyffordd 15 yn cynnwys pryderon ynghylch dymchwel eiddo, cadw symudiad pedair-ffordd er mwyn darparu gwytnwch, yr effaith ar Ffordd Penmaenmawr, yr effaith ar ysgol gynradd gymunedol Pant y Rhedyn ac effaith weledol y cynllun.

Y rhesymau dros ddewis yr opsiwn a ffefrir

Daeth gwerthusiad WelTAG i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir oedd yr opsiwn sy'n perfformio orau pan gaiff ei fesur yn erbyn amcanion y prosiect a meini prawf WelTAG. Yn ogystal, mae'n rhoi sylw i'r prif faterion a godwyd yn y ffyrdd a ganlyn:

- Drwy ddarparu symudiadau traffig pedair-ffordd fel yr argymhellir gan y rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys ACGCC, y Gwasanaethau Brys a'r Gweithredwyr Bysiau sy'n gweithredu'n rheolaidd ar yr A55, mae newidiadau i lif traffig a ragamcanir ar hyd Ffordd Penmaenmawr wedi'u lleihau i'r eithaf.
- Drwy leihau i'r eithaf nifer yr eiddo preswyl a fyddai angen eu dymchwel, gan gadw symudiadau pedair-ffordd o hyd.
- Drwy sicrhau nad yw'r cynllun arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar Ysgol Pant y Rhedyn gan felly leihau'r effaith andwyol bosib ar gymuned yr ysgol.



- Drwy ddarparu cyfleoedd drwy ddylunio tirlunio i leihau i'r eithaf effaith weledol y gyffordd newydd.

Y dull dylunio

Mae'r dyluniad rhagarweiniol yn cael ei ddatblygu gan ystyried nifer o gyfyngiadau dylunio allweddol, gan gynnwys Amcanion y Prosiect.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i optimeiddio trefniant y gyffordd i gydbwysu'r angen i osgoi dymchwel eiddo a'r angen i gyflawni safonau dylunio. Er gwaethaf hyn, bydd angen dymchwel bloc o dai. Fodd bynnag, mae'r trefniant cyffordd wedi'i optimeiddio yn caniatáu i'r eiddo newydd gael eu cadw.

Rhagwelir y caiff y bont uwch ben ei hadeiladu gyda dec dur a choncrid un rhychwant. Bydd y ffyrdd ymuno ac ymadael ar godiad ar lethr, a defnyddir tirlunio i sgrinio golygfeydd lle bo hynny'n bosib.

Mae'r dyluniad rhagarweiniol ar gyfer Cyffordd 15 yn ymgorffori darpariaeth ar gyfer llwybr beicio/troed a rennir gyda chroesfan i gerddwyr er mwyn cyd-fynd â Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 Sustrans. Mae mantais i hyn gan y bydd yn gwella mynediad i Ysgol Pant y Rhedyn. Bydd y Ffordd Penmaenmawr bresennol yn cael ei hail-alinio i ffurfio stryd sydd wedi'i ledu'n fwy gyda pharcio a thirlunio, a fydd yn darparu gwahaniad rhwng cerddwyr a cherbydau.



A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME

Junction 15 (Llanfairfechan) Preferred option

Design Constraints

At Junction 15 the primary constraints relate to the tight space along the A55 corridor between the coast, North Wales coast railway line, A55 corridor and the existing properties. As a consequence, the alignment of the highway is limited by the existing infrastructure, retaining walls and the need to retain minimum headroom along Shore Road East.

The main issues raised by the public and key stakeholders during the Public Consultation for Junction 15 included concerns regarding demolishing properties, retaining four-way movement to provide resilience, the impact on Penmaenmawr Road, the impact on the Ysgol Pant Y Rhedyn community junior school and the visual impact of the scheme.

The reasons for selecting the preferred option

The WelTAG appraisal concluded that the preferred option was the best performing option when measured against the project objectives and the WelTAG criteria. It also addresses the main issues raised in the following ways:

- By providing four-way traffic movements as recommended by key stakeholders, including NMWTRA, Emergency Services and the Bus Operators that regularly operate on the A55, changes to predicted traffic flows along Penmaenmawr Road are minimised.
- By minimising the number of residential properties that would need to be demolished, whilst still retaining four-way movement.
- By ensuring that the proposed scheme does not directly affect

Ysgol Pant Y Rhedyn thus reducing the potential adverse impact on the school community.

- By providing opportunities through landscaping design to minimise the visual impact of the new junction.

Approach to the design

The preliminary design is being developed taking into account a number of key design constraints, whilst recognising the Project Objectives.

Considerable work has been carried out to optimise the junction arrangement to balance the need to avoid demolishing properties and the need to achieve design standards. Despite this, it will be necessary to demolish a housing block. However, the optimised junction arrangement allows for the new properties to be retained.

It is anticipated that the overbridge will be constructed with a single span, steel and concrete deck. The slip roads will be elevated on embankments, with landscaping used to screen views where feasible.

The preliminary design for Junction 15 incorporates provision for a shared cycleway/footpath with a pedestrian crossing to tie-in with Sustrans National Cycle Network Route 5. This will have the advantage that it will improve access to the Ysgol Pant Y Rhedyn. The existing Penmaenmawr Road will be realigned to form an over-widened street with parking and landscaping, which will provide segregation between pedestrians and vehicles.




Golygfa tuag at Gyffordd 15
Argraffiadau'r arlunydd o sut y gallai'r
gyffordd edrych yw'r darluniau hyn
View towards Junction 15
This visualisation is an artists impression of
what the junction might look like



Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund

CYFFORDD 16 YR A55 - PENMAENMAWR A DWYGYFYLCHI

A55 JUNCTION 16 - PENMAENMAWR AND DWYGYFYLCHI




Bwrdd 1 o 3 / Board 1 of 3

1. Tirlunio a ragwelir y bydd yn cynnwys plannu coed, llwyni a bylbiau'r gwanwyn. / Landscaping anticipated to incorporate feature tree, shrub and spring bulb planting.
2. Cadw'r ffyrdd ymuno ac ymadael i'r gorllewin yng Nghyffordd 16. / Westbound slip roads at Junction 16 to be retained.
3. Plannu coed a llwyni newydd i ffurfio nodwedd porth ar gyfer y gyffordd. / Replacement tree and shrub planting to form gateway feature for junction.
4. Plannu coed a llwyni newydd. / Replacement tree and shrub planting.
5. Bwnd wedi'i dirlunio i sgrinio'r ffordd o'r tai gan warchod golygfeydd drosodd i'r môr. / Landscaped bund to screen roads from houses while protecting views over to the sea.
6. Wal gynnal a pharapet i sgrinio golygfeydd o'r ffordd o'r tai ym Maes y Llan. Llwyni newydd wedi'u planni ar y llethrau. / Retaining wall and parapet to screen views of road from houses on Maes y Llan. New shrubs planted on banks.
7. Cyfleoedd i greu neu wella cynefin i fywyd gwylt. / Opportunities to create or enhance habitat for wildlife.
8. Mynediad llwybr troed presennol i'r A55 i'w gau. / Existing footpath access to A55 to be closed.
9. Llwybr yn cael ei rannu rhwng beicwyr/cerddwyr. / Shared cycle/pedestrian path.
10. Cysylltu â'r llwybr beicio/cerddwyr a rennir o Faes y Llan. / Tie in with shared cycle/pedestrian path from Maes y Llan.
11. Safleoedd bysiau presennol i'w hail-leoli (lleoliadau i'w cadarnhau). / Existing bus stops to be repositioned (locations to be confirmed).
12. Stribedi rymblan i'w tynnu. / Rumble strips to be removed.

CYFFORDD 16/16A YR A55 (FFORDD GYSWLLT)

A55 JUNCTIONS 16/16A (LINK ROAD)




Bwrdd 2 o 3 / Board 2 of 3

1. System Atal Cerbydau rhwng yr A55 a'r ffordd gyswllt. / Vehicle Restraint System between A55 and link road.
2. Strwythurau cynnal i gefnogi'r ffordd gyswllt newydd. / Retaining structures to support new link road.
3. Bwnd wedi'i dirlunio (gyda bwnd ar uchder) i sgrinio'r ffordd o'r tai gan warchod golygfeydd drosodd i'r môr. / Landscaped bund (with a raised bund) to screen road from houses while protecting views over to the sea.
4. Cadw'r llwybrau o Ddwygyfylchi i'r bont droed uwch ben yr A55 i'r traeth. Ymchwilio i ddichonolrwydd darparu rampiau i wella mynediad ar draws y bont droed i Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5. / Paths from Dwygyfylchi to footbridge over A55 to the coast retained. Feasibility of providing ramps to improve access across footbridge to National Cycle Route 5 being investigated.
5. Plannu coed i sgrinio'r ffordd o'r tai gan warchod golygfeydd drosodd i'r môr. / Tree planting to screen road from houses while protecting views over to the sea.
6. Llwybr cerddwyr a beicio a rennir, yn darparu cysylltiadau gyda llwybrau troed/beicio presennol. / Shared pedestrian and cycle route, providing links with existing footpaths/cycleways.
7. Lleoliad y pwl gwanhau a ragwelir. Cyfleoedd posib i greu neu wella cynefin i fywyd gwyllt ger yr afon Gyrach. / Anticipated location of attenuation 'pond'. Potential opportunities to create or enhance habitat for wildlife beside Afon Gyrach.
8. Cae chwaraeon anffurfiol i'w ailffurfweddu. / Informal sports field to be reconfigured.
9. Croesfan cerddwyr / beicio i gyd-fynd â'r bont droed. / Pedestrian / cycle crossing to tie in with footbridge.
10. Pont newydd dros yr afon Gyrach. / New overbridge over River Gyrach.
11. Aliniad y ffordd gyswllt yn fynegol. Gellir ei addasu yn dilyn ymgynghoriad gyda thirfeddianwyr. / Alignment of link road indicative. May be amended following consultation with landowners.

CYFFORDD 16A YR A55 - PENMAENMAWR A DWYGYFYLCHI

A55 JUNCTION 16A - PENMAENMAWR AND DWYGYFYLCHI



Bwrdd 3 o 3 / Board 3 of 3

1. Ffyrdd ymuno ac ymadael ar godiad (ar uchder o tua 7m uwch lefel bresennol yr A55). / Elevated slip roads (at an approximate height of 7m above the existing A55 level).
2. Pont uwch ben yn darparu cyswllt i gerddwyr/beicwyr i Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 a'r arfordir. / New overbridge providing a pedestrian/cyclist link to the National Cycle Route 5 and the coast.
3. Mynediad newydd i waith trin Dŵr Cymru Welsh Water o'r ffordd ymadael. / New access to Dwr Cymru Welsh Water treatment works from the slip road.
4. Ffordd Feicio Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5. / National Cycle Route 5 Cycleway.
5. Afon Gyrach. / River Gyrach.
6. Mynediad i'r cae i'w gadw. / Field access to be retained.
7. Ffyrdd cyswllt ar godiad. / Elevated link roads.
8. Safleoedd bysiau presennol i'w hail-leoli (lleoliadu i'w cadarnhau). / Existing bus stops to be repositioned (locations to be confirmed).
9. Ail-leoli'r grid gwartheg presennol (i'w gytuno). / Relocation of existing cattle-grid to be agreed.
10. Cyfleoedd i greu neu wella cynefin i fywyd gwylt. / Opportunities to create or enhance habitat for wildlife.
11. Plannu coed i sgrinio'r ffordd o'r tai gan warchod golygfeydd drosodd i'r môr. / Tree planting to screen road from houses while protecting views over to the sea.
12. Wal ffin gerrig gyda choed a llwyni wedi'u plannu ar y llethr i sgrinio golygfeydd o'r ffordd. / Masonry boundary wall with tree and shrub planting on bank to screen views of the road.
13. Bydd ffyrdd ymuno ac ymadael ar y llethr yn sgrinio golygfeydd o'r ffordd a thraffig o Dwygyfylchi. / Slip roads on embankment will screen views of road and traffic from Dwygyfylch.

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Cyffyrdd 16/16A (Penmaenmawr & Dwygyfylchi) Opswn a ffefrir

Cyfyngiadau Dylunio

Er bod y cyfyngiadau o ran lle yn llai amlwg yng Nghyffordd 16 nag yng Nghyffordd 15 (Llanfairfechan), maent wedi cael dylanwad nodedig ar y broses o wneud penderfyniadau. Yn benodol, mae'r topograffi lleol wedi golygu nad yw'n ddichonadwy i gymryd cyffordd pedair-ffordd yng nghyffiniau uniongyrchol y gylchfan bresennol.

Roedd y prif faterion a godwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfer Cyffordd 16 yn cynnwys pryderon ynghylch cynnydd mewn llif traffig drwy Benmaenmawr a/neu Dwygyfylchi, gan gadw symudiad pedair-ffordd er mwyn darparu gwytnwch, yr effaith ar Ffordd Ysguborwen, yr effaith weledol a sŵn sy'n gysylltiedig â choridor yr A55 yn bresennol ac yn y dyfodol.

Y rhesymau dros ddewis yr opsiwn a ffefrir

Daeth gwerthusiad WelTAG i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir oedd yr opsiwn sy'n perfformio orau pan gaiff ei fesur yn erbyn amcanion y prosiect a meini prawf WelTAG. Yn ogystal, mae'n rhoi sylw i'r prif faterion a godwyd yn y ffyrdd a ganlyn:

- Drwy ddarparu symudiadau traffig pedair-ffordd fel yr argymhellir gan y rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys ACGCC, y Gwasanaethau Brys a'r Gweithredwyr Bysiau sy'n gweithredu'n rheolaidd ar yr A55.
- Drwy wella gwytnwch y rhwydwaith yn sylweddol a thrwy ddarparu ffordd gyswllt gyfochrog newydd rhwng Cyffyrdd 16 a 16A.
- Drwy ddarparu cyfleoedd er budd cymdeithasol ac amgylcheddol. Gydag enghreifftiau yn cynnwys y cyfle i ddatblygu mannau agored cyhoeddus a choridor cynefin.

- Drwy gyflawni cyfleoedd sylweddol i hyrwyddo teithio llesol, yn cynnwys creu llwybr cylchdaith newydd, a fydd yn rhyng-dorri llwybrau cerdded presennol ac yn darparu gwell mynediad i Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 Sustrans a'r arfordir, gan annog ffordd o fyw iachach drwy hynny.
- Drwy leihau effaith y traffig ar Ffordd Ysguborwen o gymharu ag opsiynau eraill.


Y dull dylunio

Mae'r dyluniad rhagarweiniol yn cael ei ddatblygu gan ystyried nifer o gyfyngiadau dylunio allweddol, gan gynnwys Amcanion y Prosiect.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2018, gwnaed gwaith i wella aliniad y ffordd gyswllt, i liniaru yn erbyn y cynnydd a ragwelwyd yn flaenorol mewn llif traffig drwy Dwygyfylchi ac ar hyd Ffordd Ysguborwen, drwy ymestyn y ffordd gyswllt i Gyffordd 16 a darparu mesurau lliniaru traffig yn Nwygyfylchi.

Er mwyn rhoi sylw i bryderon ynghylch yr effaith bosib ar olygfeydd a sŵn, mae'r dyluniad rhagarweiniol yn ymgorffori bwnd wedi'i dirlunio a phlannu a gaiff ei ddylunio i guddio'r traffig o'r eiddo sy'n edrych dros y ffordd gyswllt, gan ddiogelu'r golygfeydd o'r arfordir hefyd. Yn yr un modd, cynigir y caiff y bont uwch ben yng Nghyffordd 16A ei sgrinio gyda phlannu a'r llethrau ar godiad.

Mae'r dyluniad rhagarweiniol ar gyfer y ffordd gyswllt yn ymgorffori darpariaeth ar gyfer llwybr beicio/troed a rennir gyda chroesfan i gerddwyr ger bont droed Puffin, er mwyn cyd-fynd â Llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5 Sustrans a'r llwybrau troed presennol. Mae ymgynghori'n parhau i adnabod cyfleoedd i greu man agored cyhoeddus a chynefinoedd ar hyd y llwybr.



Dull dylunio i sgnnio tai rhag olygfeydd o'r A55

Design approach to screening views of the A55 from properties



A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME

Junction 16/16A (Penmaenmawr & Dwygyfylchi) Preferred option

Design Constraints

Although the space constraints are less obvious at Junction 16 than at Junction 15 (Llanfairfechan), they have had a notable influence on the decision-making process. In particular the local topography has meant that it is not feasible to accomodate a four-way junction in the immediate vicinity of the existing roundabout.

The main issues raised by the public and key stakeholders during the Public Consultation for Junction 16 included concerns regarding increased traffic flow through Penmaenmawr and/or Dwygyfylchi, retaining four-way movement to provide resilience, the impact on Ysguborwen Road, the existing and future visual and noise impact associated with the A55 corridor.

The reasons for selecting the preferred option

The WelTAG appraisal concluded that the preferred option was the best performing option when measured against the project objectives and the WelTAG criteria. It also addresses the main issues raised in the following ways:

- By providing four-way traffic movements as recommended by key stakeholders, including NMWTRA, Emergency Services and the Bus Operators that regularly operate on the A55.
- By significantly improving network resilience and by providing a new parallel link road between Junctions 16 and 16A.
- By providing opportunities for social and environmental benefit. Examples being the opportunity to develop public open spaces and a habitat corridor.

- By delivering significant opportunities to promote active travel, including the creation of a new circular route, which will intercept existing footpaths and provide improved access to the Sustrans NCN Route 5 and the coast, so encouraging healthier lifestyles.
- By reducing the traffic impact on Ysguborwen Road as compared to other options.

Approach to the design

The preliminary design is being developed taking into account a number of key design constraints, whilst recognising the Project Objectives.

Following the public consultation in the Summer 2018, work was carried out to refine the alignment of the link road, to mitigate against the previously forecast increase in traffic flows through Dwygyfylchi and along Ysguborwen Road, by extending the link road to Junction 16 and providing traffic calming measures in Dwygyfylchi.

To address concerns regarding the potential impact on views and noise, the preliminary design incorporates a landscaped bund and planting that will be designed to hide traffic from the properties overlooking the link road, whilst protecting the views of the coast. Similarly it is proposed that the new overbridge at Junction 16A will be screened with planting and the raised embankments.

The preliminary design for the link road incorporates provision for a shared cycleway/footpath with a pedestrian crossing at the Puffin footbridge, to tie-in with the Sustrans National Cycle Network Route 5 and existing footpaths. Consultation is ongoing to identify opportunities to create open public space and habitats alongside the route.

Golygfa tuag at Gyffordd 16A

Argraffiadau'r arlunydd o sut y gallai'r

gyffordd edrych yw'r darluniau hyn

View towards Junction 16A

This visulisation is an artists impression of what the junction might look like



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55 A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS SCHEME



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn ymgymryd ag ymchwiliadau pellach, yn cynnwys yr Ymchwiliadau Tir a'r arolygon Amgylcheddol sydd wedi'u cynnal yn ddiweddar, ac yn dylunio'r cyffyrdd yn fanylach. Gelwir hyn yn ddyluniad rhagarweiniol. Bydd rhagor o gyfleoedd i randdeiliaid a'r cyhoedd gynnig eu safbwyntiau a gwneud sylwadau yn ystod y cam hwn o ddatblygu'r dyluniad.

Ar ôl y dylunio rhagarweiniol, byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion drafft o dan *Ddeddf Priffyrdd* 1980 a *Deddf Caffael Tir* 1981. Mae'r Gorchmynion drafft yn cynnwys y pwerau i sefydlu llinell, slipffyrdd, addasu'r ffyrdd ymyl, prynu tir a gweithredu unrhyw hawliau eraill sydd eu hangen arnom i ddarparu'r cynllun. Bydd cyfnod pan fydd pobl sydd â buddiant yn y cynigion neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt yn gallu gwrthwynebu'r Gorchmynion drafft a hyd yn oed gwneud cynigion eraill. Os na allwn ddatrys y gwrthwynebiadau hyn, ac yn dibynnu ar y materion a godir a maint y gwrthwynebiad, efallai y byddwn yn cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Byddai Arolygydd annibynnol yn gwrandao ar y dystiolaeth ac yn ei hystyried cyn gwneud argymhelliad i Ysgrifennydd y Cabinet ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion.

Mae'r cynllun yn "brosiect perthnasol" o dan Reoliad 48 (1) (a) *Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc)* 1994 (OS 1994/ Rhif 2716) o ran Erthygl 6(3) Cyfarwydddeb Cynefinoedd 92/43/EEC yr UE. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn llunio Datganiad Amgylcheddol. Byddwn yn cyhoeddi'r rhain ynghyd â Datganiad i Hysbysu penderfyniad Asesu Priodol ar yr un pryd ag y byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion drafft.

Bydd modd i chi weld y Gorchmynion drafft mewn arddangosfa gorchmynion a gynhelir yn ystod y gaeaf 2019/20.

Yn y cyfamser, bydd tîm y prosiect a fydd yn bresennol yn hapus i'ch cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch y wybodaeth. Defnyddiwch y ffurflen adborth i roi eich barn. Yn ogystal, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus, Mike Gilbert, ar 07840 330 238 neu ar e-bost A55J15J16@ramboll.com.

What happens next

We will carry out further investigations, including the Ground Investigations and Environmental surveys that have been ongoing recently, and design the junctions in more detail – known as preliminary design. There will be further opportunities for stakeholders and the public, to give their views and make comments during this phase of the design development.

After preliminary design, we will publish draft Orders under the *Highways Act* 1980 and the *Acquisition of Land Act* 1981. The draft Orders comprise the powers to establish a line, slip roads, modify the side roads, purchase land and put in place any other rights we need to deliver the scheme. There will be a period during which people who have an interest in, or might be affected by, the proposals may object to the draft Orders and even suggest alternative proposals. If we cannot resolve these objections, and depending on the issues raised and the weight of objection, we may hold a Public Local Inquiry. An independent Inspector would hear and consider the evidence and make a recommendation for the Cabinet Secretary to take into account when deciding whether to make the Orders.

The scheme is a "relevant project" under Regulation 48 (1) (a) of the *Conservation (Natural Habitats etc) Regulations* 1994 (SI 1994/ No 2716) in relation to Article 6(3) of the EU Habitats Directive 92/43/EEC. This means that we will carry out an Environmental Impact Assessment and produce an Environmental Statement. We will publish this together with a Statement to Inform an Appropriate Assessment decision at the same time as we publish draft Orders.

You will be able to view the draft Orders at an orders exhibition which is due to be held in the Winter 2019/2020.

In the meantime, the project team in attendance will be happy to assist you with any queries that you may have about the information. Please use the feedback form to give your views. You can also contact the Public Liaison Officer, Mike Gilbert, on 07840 330 238 or by email A55J15J16@ramboll.com.

